

Archwiliad o ganfyddiadau datblygol athrawon ITM dan hyfforddiant o ddad-drefedigaethu'r cwriclewm ITM

Kerry Bevan (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

CRYNODEB

Ar hyn o bryd mae sut rydym yn addysgu Ieithoedd Tramor Modern (ITM/MFL) yn cael ei gwestiynu yng ngoleuni ymwybyddiaeth gynyddol o drefedigaethedd o fewn y cwriclewm uwchradd ac anghydraddoldebau hiliol. O fewn y cyd-destun hwn, nod yr ymchwil hon oedd archwilio canfyddiadau datblygol pum athro ITM dan hyfforddiant ynghylch dad-drefedigaethu'r cwriclewm ITM yn ystod eu hail leoliad addysgu mewn un brifysgol. Er bod y canlyniadau yn dangos bod gan athrawon ITM dan hyfforddiant ddealltwriaeth ddamcaniaethol o ddad-drefedigaethu'r cwriclewm a'u bod yn gallu mynd i'r afael â naratif gwyn Ewroganolog gwersi unigol, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'u dysgwyr. Roeddent yn teimlo na allent symud i ffwrdd o wersi arwahanol. At hynny, roedd safleoldeb unigol yn ymwneud â dad-drefedigaethu yn absennol ar y cyfan. Nodwyd mwy o gefnogaeth o ran datblygiad proffesiynol a chydweithio ar gyfer y dyfodol.

Geiriau allweddol: dad-drefedigaethu'r cwriclewm ITM, athrawon ITM dan hyfforddiant

Cyflwyniad

Mae bodolaeth anghydraddoldebau hiliol a'r effaith ar ddsygwyr wedi'u hamlinellu'n glir yn adroddiad Williams (Llywodraeth Cymru, 2021a).

<https://doi.org/10.16922/ffocus6>

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol Llywodraeth Cymru (2022) yn cynnwys adran benodol ar gyfer darparwyr addysg, gyda'r nod o ddod yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030.

Mae ceisio dad-drefedigaethu'r cwricwlwm yn mynd i'r afael â maes pwysig o anghydraddoldeb hiliol yn y systemau addysgol. Os yw'r cwricwlwm wrth wraidd addysg, yna yn ganolog i hyn mae athrawon dan hyfforddiant a fydd yn addysgu ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr. Mae gweithio i ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm yn gymhleth mewn system lle mae agweddau trefedigaethol yn dal i fodoli (Dominguez, 2019; Gabi et al., 2023).

Fel athro ysgol Ieithoedd Tramor Modern (ITM) gwyn sy'n gweithio mewn cyd-destun AGA, roeddwn yn cydnabod y diffyg ymchwil ar ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm ieithoedd modern uwchradd. Roeddwn i eisiau archwilio'r thema hon gydag athrawon ITM dan hyfforddiant wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfaedd addysgu.

Llenyddiaeth

Er gwaethaf nifer o gyhoeddiadau wedi'u seilio ar ddad-drefedigaethu addysgu uwchradd (e.e., Elliott et al., 2020; Harris, 2020; Olsson Rost, 2022; Glowach et al., 2023; Arday, 2021) mae dad-drefedigaethu'r cwricwla ITM yn ysgolion uwchradd y DU yn faes sydd heb ei archwilio'n ddigonol. Mae ymchwil gyfredol yn herio rhagdybiaethau ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant addysgu gan ragdybio pwynt niwtral wrth leoli amrywiaeth, rhoi'r 'norm gwyn' yn ganolog ac ystyried 'eraill' fel rhai amrywiol (Panford, 2021; Hirsch, 2021). Mae defnyddio'r gair 'tramor' i ddisgrifio disgyblaeth addysgu iaith yn rhoi arwydd clir o 'aralleiddio' (Agudo, 2021). Yn gynyddol mae galwadau am ei ddisodli gyda 'byd-eang', 'y byd' (Agudo, 2021; Kohl, 2018) neu 'rhyngwladol' fel y gwelir yn y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2021b).

Cynrychiolaeth mewn deunyddiau addysgu ITM

Er bod llenyddiaeth sy'n mynd i'r afael â dad-drefedigaethu mewn ITM uwchradd yn brin, mae ymchwil ar hil a hiliaeth wrth Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL) yn amlygu materion, gan gynnwys delweddau ystrydebol mewn gweryslyfrau, y ffafiaeth ddiarwybod tuag at

siaradwyr brodorol gwyn, ac ymleiddio athrawon o liw (Kubota a Lin, 2006). Mae Panford (2021) yn nodi themâu tebyg ym maes addysgu ITM, megis cynrychioliadau ystrydebol mewn gwrslyfrau a deunyddiau asesu uwchradd. Er enghraifft, mae Bedecarré (2022) a Spiegelman (2022) yn ystyried mapiau sy'n dathlu 'la Francophonie' yn broblematig gan nad ydynt yn mynd i'r afael â natur amlieithog y gwledydd hyn nac yn tynnu sylw at y drafodaeth gyfredol ynghylch cael gwared ar Ffrangeg fel iaith swyddogol. Ar ben hynny, nid oes fawr o ymdrech i esbonio'r hanes treisgar a aeth â Ffrainc i bob cyfandir (Mbembe et al., 2018; Spiegelman, 2022).

Pwy yw'r siaradwyr brodorol mewn addysgu ITM?

Defnyddir termau fel 'siaradwr brodorol' ac 'ynganiad dilys' mewn addysgu ITM (Creese et al., 2014; Doerr, 2009) ond y broblem yw bod y cysyniad o siaradwyr brodorol yn gysylltiedig â siaradwr gwyn uniaith (Benaglia a Smith, 2022). Mae ffafriaeth ar gyfer 'Ffrangeg Parisaidd' (Benaglia a Smith, 2022) neu siaradwyr Sbaeneg o dir mawr Sbaen (Macedo, 2019) ac yng nghyd-destun addysgu Almaeneg, mae bod yn siaradwr Almaeneg brodorol yn gysylltiedig â bod yn wyn (McGregor, 2020). Mae'r ffordd yr ydym yn diffinio siaradwyr brodorol yn bell o fod yn gynhwysol, neu'n gynrychioliadol o'r cyd-destun byd-eang lle siaredir ieithoedd.

Pa ieithoedd sy'n cael eu haddysgu mewn ystafelloedd dosbarth uwchradd?

Adlewyrchir goruchafiaeth Ewroganolog y ddarpariaeth iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn yr ieithoedd a addysgir, gyda ffocws ar y 'tair fawr' – Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg (Collen et al., 2022). Mae arferion ysgolion yn adlewyrchu hierarchaethau hiliol ieithoedd, gan roi mwy o werth ar ieithoedd sy'n gysylltiedig â gwynder nag ieithoedd lleiafrifol ac mae hyn yn hiliol (von Esch et al., 2020), gyda statws 'diwylliant uchel' yn cael ei roi i'r ieithoedd Ewropeaidd a addysgir (Wardhaugh et al., 2014 t. 85).

Mae dad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM yn gofyn am archwiliad beirniadol o ddeunyddiau addysgu a darpariaeth iaith i herio normau Ewroganolog a hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol. Felly, mae angen ymchwil bellach i archwilio cymhlethdodau hil a chynrychiolaeth mewn addysg ITM a datblygu addysgeg gynhwysol sy'n canoli lleisiau o'r ymylon.

Dulliau

Gallai rhoi amser a lle i athrawon dan hyfforddiant yn ystod eu blwyddyn hyfforddi i drafod materion hil a hunaniaeth, braint pobl wyn ac addysgeg drefedigaethol yn y pen draw ysgogi athrawon i ddod yn ‘asiantau newid’ (Johnson a Mouthaan, 2021) ac amharu ar y naratif Ewroganolog. Mae Le Grange (2023) yn awgrymu y gellid gwneud y gwaith hwn trwy ‘sgyrtau cymhleth’ sydd nid yn unig yn cyfnewid gwybodaeth ond sy’n rhoi lle i fyfyrwyr ddod o hyd i’w llais eu hunain a chaniatáu hunanfeirniadaeth. Yn y cyd-destun hwn, ymchwiliat i safbwyntiau athrawon dan hyfforddiant ITM yn ystod eu hail leoliad addysgu, ar ôl iddynt gael profiad o realiti’r ystafell ddosbarth yn eu lleoliad cyntaf i allu ymateb i’r pwnc.

Moeseg

Cyn dechrau’r ymchwil, rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil. Cafodd athrawon dan hyfforddiant ffurflen wybodaeth yn manylu ar natur wirfoddol yr astudiaeth, eu hawl i dynnu’n ôl ar unrhyw adeg a phwrpas yr ymchwil.

Roedd ystyriaeth foesegol gyffredinol yn ymwneud â’r swydd fel darlithydd y cyfranogwyr, gan gydnabod y berthynas hierarchaidd (Braun a Clarke, 2013). Er mwyn lliniaru effeithiau fy safbwynt roeddwn yn dryloyw gyda chyfranogwyr am nodau’r prosiect a’r defnydd o ddata, cyn dechrau fy ymchwil ac yn y daflen wybodaeth i gyfranogwyr. Ar gyfer y grŵp ffocws ar-lein, tynnais fy hun o’r grŵp ffocws ac fe hwyluswyd y drafodaeth gan gydweithiwr a oedd yn gyfarwydd â’r thema ond nad oedd yn addysgu’r grŵp gan ddefnyddio cwestiynau wedi’u gosod o flaen llaw gennyf.

Gweithdrefn Samplu a Disgrifiad

Roedd cyfranogwyr yr astudiaeth yn cynnwys y grŵp uwchradd TAR ITM yr wyf yn arweinydd pwnc ar ei gyfer. Gwahoddwyd pob un o’r wyth myfyriwr i gymryd rhan yn fy ymchwil, ond dim ond chwech a gyflwynodd ffurflenni caniatâd wedi’u cwblhau. Roedd pob myfyriwr

wedi cwblhau graddau israddedig mewn Iaith Ewropeaidd, y tu mewn ar tu allan i'r DU. O'r chwe myfyrwr, cwblhaodd pump yr holiadur ar-lein, a chymerodd pedwar ohonynt ran yn y grŵp ffocws ar-lein.

Defnyddiodd yr astudiaeth achos hon ddull ansodol i archwilio canfyddiadau datblygol grŵp o athrawon ITM dan hyfforddiant yn ystod eu hail leoliad addysgu. Nod yr astudiaeth oedd ateb tri chwestiwn ymchwil (CY):

CY1: Beth mae athrawon dan hyfforddiant yn ei ddeall wrth y term 'dad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM'?

CY2: Beth mae athrawon ITM dan hyfforddiant yn credu yw'r rhwystrau i ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM?

CY3: Sut mae athrawon ITM dan hyfforddiant yn gweld dyfodol dad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM yn eu haddysgu eu hunain

Roedd offer ymchwil yn cynnwys holiadur ar-lein a grŵp ffocws. Dosbarthwyd holiaduron cyn yr ail leoliad addysgu (Chwefror 2023). Yn dilyn hynny, mynychodd myfyrwyr ddiwrnod astudio TAR ar ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM, wedi'i lunio o amgylch ymatebion o'r holiadur ar-lein (Ebrill 2023). Ar ddiwedd yr ail leoliad addysgu, cynhaliwyd grŵp ffocws ar-lein i ailedrych ar y cwestiynau ymchwil (Mai 2023).

Cynhyrchu a Dadansoddi Data

Roedd yr arolwg ar-lein yn cynnwys dwy ran: roedd y rhan gyntaf yn canolbwyntio ar addysg drydyddol y cyfranogwyr eu hunain a'u profiadau o ddysgu ieithoedd; ac roedd yr ail ran yn ymdrin â chanfyddiadau o ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm, profiadau o ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm yng Nghymru, hyfforddiant gwrth-hiliol yn yr ysgol, dealltwriaeth o'r term 'dad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM' a rhwystrau posibl.

Roedd yr holiadur ar-lein yn cynnwys cwestiynau penagored yn bennaf gan ganiatáu i gyfranogwyr ateb yn llawn am eu profiadau o hunain o ddysgu iaith, a phrofiadau hyfforddi wrth archwilio dad-drefedigaethu'r cwricwlwm. Cafodd rhai cwestiynau caeedig eu cynnwys ar ddechrau ail ran yr holiadur ar-lein yn ymwneud â phrofiad a

gwybodaeth myfyrwyr am sefydliad Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL) Llywodraeth Cymru a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Llywodraeth Cymru, 2022).

Cynhaliwyd y grŵp ffocws ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams ac fe recordiwyd y cyfweiliadau. Roedd cwestiynau ar gyfer y grwpiau ffocws yn lled-strwythuredig i ganiatáu i'r cymedrolwr holi'n fanylach, a gofyn i'r cyfranogwyr egluro lle bo angen, ond hefyd i fod yn hyblyg i fynd ar drywydd pwnc os oedd angen (Newby, 2010). Drwy ddefnyddio cwestiynau lled-strwythuredig, roedd modd i'r cymedrolwr gael syniad clir o'r materion a'r cwestiynau yr oeddwn am eu harchwilio a thrafodwyd y rhain yn llawn cyn y grŵp ffocws.

Dilynais ddull Dadansoddi Thematig Atgyrchol (RTA) Braun a Clarke (2022) i ddadansoddi'r data. Treuliwyd llawer o amser yn darllen ac yn ailddarllen yr atebion i'r holiadur a thrawsgrifiadau'r cyfweiliadau er mwyn i mi ymglyfarwyddo'n llawn â'r data cyn edrych arno'n feirniadol. Ailadroddwyd codio'r ymatebion ansoddol i'r holiadur ar-lein sawl gwaith, gan fod codio yn broses ailadroddus (Newby, 2010). Yn dilyn fy ngwaith codio, lluniais restr o'r codau, cyn ceisio nodi themâu ehangach. Roedd hon yn broses weithredol, yn hytrach na phroses oddefol, lle'r oeddwn i'n chwilio am batrymau a themâu.

Canlyniadau a thrafodaeth

Beth mae athrawon dan hyfforddiant yn ei ddeall gan y term 'dad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM'?

Wrth archwilio dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o'r term 'dad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM' bu newid amlwg mewn ymatebion i'r arolwg (diwrnod astudio cyn TAR ITM) a'r grŵp ffocws diweddarach. Cyn eu hail leoliad a'u diwrnod astudio TAR ITM, mae diffiniad athrawon dan hyfforddiant yn cyd-fynd â dealltwriaeth fwy cyffredinol o agweddau trefedigaethol a ffocws Ewroganolog addysgu yn y DU. Gellir esbonio'r dehongliad mwy damcaniaethol hwn o'r term efallai gan ddiffyg profiad cymharol athrawon dan hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ar ôl cwblhau un tymor yn unig o hyfforddiant athrawon, a chan y diffyg cyfle i drin a thrafod cysyniad a awgrymir gan y llynyddiaeth i fod yn agwedd bwysig ar ddatblygiad athrawon (Elliot et al., 2021; Arday, 2021).

Yn ystod trafodaethau'r grŵp ffocws ar-lein, pwysleisiodd pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yr angen i ddysgwyr weld eu hunain mewn addysgu iaith. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynrychiolaeth a chynhwysiant ar gyfer pob dysgwr, fel y cydnabuwyd gan Olsson Rost (2022), Elliott et al. (2021) a Harris (2020). Er nad oedd yn bosibl nodi ffactorau penodol, gall y newid hwn mewn ffocws, gan symud o ddamcaniaeth i'r dysgwr adlewyrchu ffactorau megis y diwrnod astudio, darllen ehangach, trafodaethau ag eraill, eu hymarfer addysgu a'u perthnasoedd eu hunain â'u dysgwyr a'u cydweithwyr, a phrofiadau personol eraill.

I Johnson a Mouthaan (2021) dylai'r gallu i wynebu a chwestiynu safbwyntiau a safleoldeb ein hunain mewn perthynas â'r byd fod yn fan cychwyn ymgysylltu â dad-drefedigaethu. Yn fy nata i, gellid dadlau bod elfen hanfodol o 'pam rydyn ni'n dad-drefedigaethu' ar goll a dangosir hyn drwy absenoldeb geiriau fel 'braint pobl wyn', 'hiliaeth' ac 'amharu' o ystyried mai dim ond un athro dan hyfforddiant (1/4) yn y drafodaeth a gyfeiriodd yn uniongyrchol at hyn.

Beth mae athrawon ITM dan hyfforddiant yn credu yw'r rhwystrau i ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM?

Yn yr holiadur ar-lein, adleisiodd myfyrwyr yr heriau a nodwyd gan Olsson Rost (2022) ac Elliot et al. (2021), sef diffyg gwybodaeth, manylbau TGAU, amser, a diffyg adnoddau fel rhwystrau, ac maent yn union fel y nododd yr athrawon dan hyfforddiant yn yr holiadur ar-lein. Yn ogystal, mae tensiynau rhwng yr athro dan hyfforddiant a'i ysgol neu adran ynghylch ymreolaeth yr athro dan hyfforddiant i ddad-drefedigaethu cynnwys y cwricwlwm, neu'n wir y flaenoriaeth a roddir i'r gwaith hwn, yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith Gabi et al. (2023) ac Elliot et al. (2021), a mynegwyd y tensiynau hyn yn glir gan athrawon dan hyfforddiant yn y ddwy set o ddata. Mae Elliot et al. (2021) yn cyfeirio at y rhwystrau gan gydweithwyr yn yr ysgol fel ymateb negyddol ('pushback') a datgelodd y grŵp ffocws mai canlyniad hyn oedd bod yr athrawon dan hyfforddiant yn teimlo nad yw eu lleisiau'n cael eu gwerthfawrogi - 'dim ond myfyrwyr TAR ydyn ni o hyd' (Myfyriwr D). Efallai y bydd yr ymateb negyddol hwn hefyd yn adlewyrchu diffyg cefnogaeth o du uwch arweinwyr (Lidher et al., 2023).

Nodwyd thema newydd yn y grŵp ffocws ar-lein, sef diffyg hyder a gallu athrawon dan hyfforddiant i symud i ffwrdd o wersi 'wedi'u

dad-drefedigaethu' annibynnol. Adlewyrchir hyn yn sylw myfyriwr D – 'dydyn ni ddim yn gwybod sut i wneud hynny mewn cynllun gwaith'. Er bod y data'n awgrymu bod athrawon dan hyfforddiant yn bryderus am eu hanallu i ddylunio cynllun gwaith neu gyflwyno pob addysgu iaith drwy lens dad-drefedigaethu, gellid ystyried hyn yn gryfder mewn gwirionedd. Mae'n adlewyrchu eu hymwybyddiaeth nad yw dad-drefedigaethu'r cwricwlwm yn weithgaredd ticio blwch y gellir ei gwblhau mewn un wers, ond yn hytrach yn broses barhaus fel y disgrifiwyd gan Moncrieffe (2020) a Johnson a Mouthaan (2021). Amlygir hyn gan Gyfranogwr B a ddywedodd, 'Felly, nid dim ond damcaniaeth ydyw, ond rhywbeth sy'n ymarfer go iawn y dylen ni fod yn ei wneud bob dydd.'

Sut mae athrawon ITM dan hyfforddiant yn gweld dyfodol dad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM yn eu haddysgu eu hunain?

Mae canlyniadau'r astudiaeth hon ar raddfa fach yn dangos yn glir bod rhai athrawon dan hyfforddiant yn cydnabod cyfleoedd yn y dyfodol i ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm ITM o fewn y Cwricwlwm i Gymru, tra bod eraill yn ystyried aeddfedrwydd dysgwyr lefel 'A' a'u gallu ieithyddol fel lefel fwy priodol i ddefnyddio adnoddau dilys. Mae'r Cwricwlwm i Gymru ac absenoldeb cynnwys rhagnodol o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2021b) yn rhoi cyfle i athrawon ITM ddylunio cwricwlwm sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol dysgwyr yng Nghymru ac sy'n symud i ffwrdd oddi wrth ffocws Ewroganolog addysgu ITM, ond bydd hyn yn gofyn am ddull cydweithredol rhwng adrannau, ysgolion a darparwyd AGA (Glowach et al., 2023; Lidher et al., 2023).

Casgliad

Er i'r astudiaeth hon ar raddfa fach gael ei chynnal o fewn cyd-destun Addysg Gychwynnol Athrawon gyda ffocws ar athrawon ITM dan hyfforddiant, mae gwersi ehangach ar gyfer pob athro iaith. Yn gyntaf, mae'n bwysig bod athrawon yn cael amser a lle i fyfyrion a thrafod ynghylch safbwynt o fewn addysgu. Yn ail, dylid annog athrawon ieithoedd i ymgysylltu'n feiriadol â chynnwys y cwricwlwm ITM a'i ffocws Ewroganolog. Yn olaf, mae angen dull dad-drefedigaethol i ategu

pob gwers gydag ymrwymiad gan gydweithwyr, adrannau, ysgolion a phrifysgolion i gydweithio ar y daith hon.

Cydnabyddiaethau

Hoffwn ddiolch i'r athrawon ieithoedd dan hyfforddiant a gymerodd ran yn yr astudiaeth achos hon. Mae'r thema heriol ac anghyfforddus hon wedi cael ei harchwilio'n feirniadol i roi cipolwg ar lunio arferion dad-drefedigaethol, o fewn addysgu ieithoedd, ac ar gyfer addysgwyr a darparwyr addysg gychwynnol athrawon.

Hoffwn ddiolch hefyd i'm goruchwyliwr Dr Susan Davis am ei chefnogaeth a'i hanogaeth ddiwyro ar adegau anodd. Mae ei hymroddiad i'r gwaith hwn yn ddiarnheul, ac rwyf wedi elwa ar ei phrofiad a'i gwybodaeth. Mae arweiniad Dr Rhiannon Packer a'r gefnogaeth gan yr MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru) wedi bod yn amhriadiwy drywy gydol y broses hon.

Cyfeiriadau

- Agudo, R. (2021) *Can we rid language departments of the F-word?* Gw.: <https://www.insidehighered.com/views/2021/04/07/academe-shouldnt-automatically-call-languages-other-english-foreign-opinion>
- Arday, J. (2021) *The Black Curriculum*. Black British History in the National Curriculum. Gw.: <https://static1.squarespace.com/static/5f5507a237cea057c5f7741/t/5f5be90435147b148040bbfcd/1606324296650/The+Black+Curriculum%2C+Black+British+History+in+The+National+Curriculum+2021+%281%29.pdf>
- Bedecarré, M. (2022) 'Unlearning Francophonie: Legacies of colonialism in French grammar text books' yn Bouamer, S. a Bourdeau, L. (goln) (2022) *Diversity and decolonization in French studies: new approaches to teaching*. Cham, Switzerland: Springer.
- Benaglia, C. a Smith, M. A. (2022) 'Multilingual texts and contexts: Inclusive fedagogies in the French foreign classroom' yn Bouamer, S. a Bourdeau, L. (goln) (2022) *Diversity and decolonization in French studies: new approaches to teaching*. Cham, Switzerland: Springer.
- Braun, V. a Clarke, V. (2013) *Successful qualitative research: a practical guide for beginners*. Los Angeles: SAGE.
- Braun, V. a Clarke, V. (2022) *Thematic analysis: a practical guide*. Los Angeles: SAGE.
- Collen, I., Liu, M., ac O'Boyle, A. (2022) *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022. Addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, a cholegau ôl-16*. Gw.:

- https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/language_trends_wales_2022_-_welsh.pdf
- Creese, A., Blackledge, A. a Takhi, J.K. (2014) 'The ideal "native speaker" teacher: Negotiating authenticity and legitimacy in the language classroom', *The Modern Language Journal* (Boulder, Colo.), 98(4), tt. 937–51. Gw.: <https://doi.org/10.1111/modl.12148>.
- Doerr, N. M. (2009) *The native speaker concept: Ethnographic investigations of native speaker effects*. Golygydd gan N. M. Doerr. Berlin, Germany: De Gruyter Mouton. doi: 10.1515/9783110220957.
- Domínguez, M. (2019) 'Decolonial innovation in teacher development: praxis beyond the colonial zero-point', *Journal of Education for Teaching: JET*, 45(1), tt. 47–62. Gw.: <https://doi.org/10.1080/02607476.2019.1550605>.
- Elliott, V., Nelson-Addy, L., Chantiluke, R. a Courtney, M. (2021) *Diversity in literature in English schools*. Gw.: https://assets.website-files.com/61488f992b58e687f1108c7c/61d6fc0b4a6b8786bd88d10b_Lit-in-Colour-research-report-min.pdf.
- Gabi, J. et al. (2023) 'Decolonial praxis: Teacher educators' perspectives on tensions, barriers, and possibilities of anti-racist practice-based Initial Teacher Education in England', *Curriculum journal* (London, England), 34(1), tt. 83–99. Gw.: <https://doi.org/10.1002/curj.174>.
- Glowach, T. et al. (2023) 'Making spaces for collaborative action and learning: Reflections on teacher-led decolonising initiatives from a professional learning network in England', *The Curriculum Journal*, 34, 100–17. <https://doi.org/10.1002/curj.186>
- Harris, R. (2020) 'Decolonising the History curriculum', yn Moncrieffe, M. L., Race, R., a Harris R. (goln). (2020). *Decolonising the curriculum: Transnational perspectives*. Research Intelligence, 142, tt. 16–17
- Hirsch, A. (2021). *Decolonising the primary MFL classroom*. Gw.: <https://myprimarylanguagesclassroom.com/2021/05/16/decolonising-the-primary-mfl-curriculum/>
- Johnson, M. a Mouthaan, M. (2021) *Decolonising the curriculum: the importance of teacher training and development*. Gw.: <https://www.runnymedetrust.org/blog/decolonising-the-curriculum-the-importance-of-teacher-training-and-development>
- Kohl, K. (2018) *Modern (Foreign) languages: Time to rename*. Gw.: <https://www.ox.ac.uk/news/arts-blog/modern-foreign-languages-time-rename>
- Kubota, R. a Lin, A. (2006) 'Race and TESOL: Introduction to concepts and theories', *TESOL Quarterly*, 40(3), tt. 471–93. Gw.: <https://doi.org/10.2307/40264540>.
- Le Grange, L. (2023) 'Decolonisation and anti-racism: Challenges and opportunities for (teacher) education', *Curriculum journal* (London, England), 34(1), tt. 8–21. Gw.: <https://doi.org/10.1002/curj.193>

- Lidher, S., Bibi, R. ac Alexander, C. (2023) *Making History teachers: the role of teacher training and teacher education*. Gw.: <https://www.runnymedetrust.org/publications/making-history-teachers-the-role-of-teacher-training-and-teacher-education>.
- Llywodraeth Cymru (2021a) *Gweithgor cymunedau, Cyfraniadau a chynefin Pobl Dduon, Asiaidd ac Eithnig Leiafrifol yn y cwricwlwm newydd*. Gw.: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2021b) *Maes dysgu a phrofiad: Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu*. Gw.: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu>
- Llywodraeth Cymru (2022) *Cynllun gweithredu wrth-hiliol i Gymru: Cymru wrth-hiliol*. Gw.: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol.pdf>
- Macedo, D. (2019). *Decolonizing foreign language education*. Routledge.
- Mbembe, A. a Mabanckou, A. (2018) 'Plaidoyer pour une langue-monde: Abolir les frontières du français', *Revue du Crieur*, 10, 60–7 Gw.: <https://doi.org/10.3917/crieu.010.0060>
- McGregor, J. (2020) 'Study abroad otherwise' yn Criser, Regine, ac Ervin Malakaj (2020) *Diversity and Decolonization in German Studies*. Cham, Switzerland: Palgrave Macmillan
- Moncrieffe, M. L. (2020) *Decolonising the History curriculum: Euro-centrism and primary schooling*. Springer Nature.
- Newby, P. (2010) *Research methods for education*. Harlow: Longman.
- Olsson Rost, A. (2022) 'Strengthening teacher networks: Decolonising secondary school history curricula', *British Educational Research Association*. Gw.: <https://www.bera.ac.uk/publication/strengthening-teacher-networks-decolonising-secondary-school-history-curricula>
- Panford, L. (2021) 'Race and Racism in Secondary Modern Foreign Languages', *ReflectEd, St Mary's Journal of Education*, 8(1). tt. 1–12. ISSN 2046-6978
- Spiegelman, J.D. (2022) 'Racism, colonialism, and the limits of diversity: The racialized "other" in French foreign language textbooks' yn Bouamer, S. a Bourdeau, L. (goln) (2022) *Diversity and decolonization in French studies: new approaches to teaching*. Cham, Switzerland: Springer.
- Von Esch, K. S., Motha, S. a Kubota, R. (2020) 'Race and language teaching', *Language teaching*, 53(4), tt. 391–421. Gw.: <https://doi.org/10.1017/S0261444820000269>.
- Wardhaugh, R. a Fuller, J. M. (2014) *An introduction to sociolinguistics*. 7ed arg. Somerset: Wiley.

